Y FRÂN GOESGOCH A'R PROJECT ADFER
Ar hyn o bryd mae gan yr RSPB yng Nghymru dri Project Adfer sy'n anelu at atal y gostyngiad yn nifer y gwahanol rywogaethau a chynyddu poblogaeth tair rhywogaeth o aderyn – y rugiar ddu, y gornchwiglen a'r frân goesgoch.

Beth yw brân goesgoch?
Aelod o deulu'r frân yw'r frân goesoch. O edrych arni o bell mae pobl yn aml yn drysu rhyngddi ag un o'r brain eraill. O edrych arni yn nes, fodd bynnag, mae'r frân goesgoch yn wahanol i'r lleill i gyd. Mae'r plu yn ddu ac yn sgleiniog ac mae'r plu hedfan ar bennau'r adenydd yn ymddangos fel bysedd. Yn cyferbynnu â'r plu du mae'r pig cryf crymanog tenau a'r coesau yn goch llachar. Gellir hefyd wahaniaethu'r frân goesgoch oddi wrth aelodau eraill teulu'r frân oherwydd ei dull ystwyth o hedfan. Ar hyn o bryd credir fod llai na 200 pâr o frain coesgoch yn nythu yng Nghymru.

Mae'r rhain i'w gweld o amgylch yr arfordir gorllewinol, Ynys Môn, Penrhyn Llyn, rhannau eraill o Wynedd, Ceredigion, a Sir Benfro.

Pa gynefin mae ei angen arnynt?
Mae'r frân goesgoch yn byw ar amrywiaeth o gynefinoedd, rhai'n naturiol ac eraill wedi eu creu gan ddyn. Mae rhostir arfordirol a glaswelltir garw lle cedwir y tyfiant yn fyr gan bori yn gynefinoedd bwydo pwysig.

Mae prif fwyd y frân goesgoch yn cynnwys pryfed y pridd megis chwilod (a'u larfâu), pryfed genwair, molysgiaid, pryfed cop, lindys, a larfâu pryfed (yn enwedig pryfed cannwyll). Mae baw defaid a gwartheg yn brif ffynhonnell fwyd ac yn ficrogynefin hefyd ar gyfer larfâu llawer o bryfed y pridd. Pan fo'r glaswellt yn fyr gall yr adar dyrchu i'r pridd gyda'u pigau cryfion crymanog i chwilio am eu bwyd. Mae hen adeiladau chwarel, brigiadau caregog a llethrau creigiog hefyd yn cynnal poblogaethau mawr o bryfed y pridd ac maent yn gynefinoedd delfrydol i'r frân goesgoch. Yn ystod misoedd y gaeaf, pan nad oes llawer o bryfed o gwmpas, mae ffynonellau eraill o fwyd, megis cnydau âr a hadau mewn caeau, yn bwysig. Mae'r tymor magu yn ymestyn o fis Ebrill i fis Gorffennaf ac mae'r adar yn defnyddio amrediad eang o safleoedd nythu gan gynnwys ogofeydd, chwareli, cilfachau, hen adeiladau, ac o amgylch chwareli llechi. Mae'n bwysig fod amodau nythu a chynefinoedd yn ffafriol gan mai dim ond un nythaid y bydd y frân yn ei dodwy bob blwyddyn, hyd yn oed os bydd y nythaid honno'n aflwyddiannus.

Beth yw Project Adfer y Frân Goesgoch?
Yn 2000, rhoddodd yr RSPB yng Nghymru Broject Adfer y Frân Goesgoch ar waith i gynnal cyflwr presennol y cynefin sy'n bwysig i'r brain coesgoch, i warchod safleoedd nythu a sicrhau nad oes ymyrraeth yn digwydd, ac i gynyddu'r boblogaeth sy'n magu. Un o brif ddyletswyddau Swyddog y Project Adfer yw cysylltu â'r tirfeddianwyr hynny lle gwelir y frân goesgoch ar eu tir a'u cynghori ynglyn â dulliau o gynnal poblogaethau sy'n magu drwy reoli'r cynefin ar gyfer y frân goesgoch. Mae hyn yn hanfodol bwysig pan fo safleoedd nythu'r frân goesgoch ar dir nad yw'n cael ei reoli'n uniongyrchol gan yr RSPB.

Am fwy o wybodaeth am raglen addysg y frân goesgoch,
ffoniwch RSPB Cymru - 01248 363800

Mae arna’i angen NEU mae arna’i eisiau? –
Gweithgaredd sy’n amlygu anghenion pobl ac adar.

15-20 munud | Gweithgaredd dosbarth cyfan

Offer

Bwrdd gwyn neu ddu ac ysgrifbinnau
Copïau o’r Dalen Waith

Paratoad

Llungopïwch y ddalen waith a thorrwch allan y slipiau ‘Mae Arna’i Angen’ yn barod i’w defnyddio.

Tynnwch linell i lawr canol y bwrdd gwyn/du i ffurfio dwy golofn. Labelwch y colofnau yn anghenion ac eu heisiau.

Y Gweithgaredd

Rhoi slip ‘Mae Arna’i Angen’ i bob plentyn a phum munud i ysgrifennu rhestr o eitemau y mae arnynt eu hangen bob dydd. Yn eu tro, gofynnwch i’r disgyblion ddarllen eu rhestrau a gosodwch pob eitem yn y golofn addas. Ni ddylid gosod eitem yn y golofn anghenion os nad ydyw yn wirioneddol angenrheidiol ar gyfer goroesiad e.e. mae bwyd yn un o’r anghenion, mae teledu yn rhywbeth sydd ei eisiau. Wedi gosod pob eitem ar y rhestr ar y bwrdd gwyn, dylech annog y disgyblion i ystyried anghenion adar, yn enwedig y frân goesgoch. Oes angen yr un fath ar adar i oroesi?

Awgrymiadau i Athrawon

Ceir gwahanol gyfresi o ganlyniadau yn dibynnu ar sut y gofynnwyd y cwestiwn cyntaf. Bydd canlyniadau ‘Ysgrifennwch restr o bethau y mae arnoch eu heisiau bob dydd’ yn wahanol iawn i’r canlyniadau a geir o ofyn ‘Ysgrifennwch restr o bethau y mae arnoch eu hangen bob dydd i oroesi’. Mae’n fwy effeithiol gofyn y cwestiwn blaenorol ar y cychwyn ac yna cyflwyno’r syniad o oroesiad.

Gall rhestr nodweddiadol o eitemau y mae eu hangen i oroesi – ar gyfer adar a phobl – gynnwys aer, bwyd, dwr, cynhesrwydd, cysgod, a chwmni/cymar.

DALEN WAITH

I'w ddefnyddio gyda'r gweithgaredd. 'Mae arna'i angen NEU Mae arna'i eisiau' uchod.

'Mae arna'i angen...

1.....

2.....

3.....

4.....

'Mae arna'i angen...

1.....

2.....

3.....

4.....

'Mae arna'i angen...

1.....

2.....

3.....

4.....

DALEN WAITH

Dychmygwch eich bod yn frân goesgoch sy'n chwilio am gartref newydd – am beth fyddech chi'n chwilio?

Ymgeiswyr: Meistr a Meistres Pig-coch

1 Dewiswch y math(au) o gymdogaeth sydd o ddiddordeb i chi

- A: Chwareli
- B: Ffermdir
- C: Brigiadau creigiog
- Ch: Anialwch
- D: Pyllau

2 Rhowch dic ar gyfer y math(au) o dir y byddech yn ei ddewis i adeiladu'ch nyth:

- A: Pridd moel a glaswellt
- B: Tywod
- C: Ogofeydd mewn creigiau
- Ch: Rhew
- D: Môr agored

3 Rhestrwch y mathau o fwyd yr hoffech eu cael yn agos at eich cartref:

.....

.....

4 Oes yna unrhyw gymdogion yr hoffech eu hosgoi?

.....

.....

5 Rhestrwch unrhyw anghenion eraill os gwelwch yn dda:

.....

.....